Mesurau Diogelwch COVID

Mae'n bleser gennym groesawu ein cynulleidfaoedd yn ôl i ddigwyddiadau Carnifal Geiriau 2022. Mae arnom ni eisiau i chi deimlo'n hyderus wrth ddychwelyd atom, ac felly dyma'r mesurau a fydd yn eu lle tra byddwch yn ymweld â ni.

Pas Covid
Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru:
Gorchuddion wyneb – Gofynnwn yn garedig i chi wisgo gorchudd wyneb os fedrwch chi.
Hylif Diheintio Dwylo – Bydd unedau diheintio dwylo wrth bob pwynt mynediad a ledled yr adeilad. Rydym ni'n eich annog i ddiheintio'ch dwylo wrth fynd i mewn i'r adeilad, a lle bynnag fo'n bosib.
Profi, Olrhain a Diogelu – Bydd gofyn i ymwelwyr sganio'r cod QR Profi, Olrhain a Diogelu wrth fynd i mewn i'r adeilad.
E-docynnau – Os ydych chi wedi dewis e-docyn yna does arnoch chi ddim angen ei argraffu, mae hyn yn cyfyngu ar gyswllt. Dangoswch dderbynneb eich tocyn ar eich ffôn i'r staff wrth y drysau.
Awyru – Lle bo'n bosib, bydd ffenestri'n cael eu hagor i gylchredeg yr aer.
Yn olaf, mae arnom eich angen chi – Gofynnwn am eich cymorth i gadw ein staff ac eraill yn ddiogel. Cymerwch eich amser, cadwch eich pellter lle bo'n bosib ac, yn bwysicach fyth, os oes gennych chi unrhyw un o symptomau Covid-19, peidiwch â dod i'r digwyddiad/sesiwn.
Lle bo'n bosibl, rydym ni'n awgrymu eich bod chi'n gwneud Prawf Llif Unffordd cyn mynd i ddigwyddiad Carnifal Geiriau 2022. Dydi hyn ddim yn orfodol ond mae'n fesur ystyriol i'r bobl o'ch cwmpas.